# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | **Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol** |
| **Aelod Cabinet:** | **Cynghorydd Menna Trenholme** |
| **Swyddog perthnasol:** | **Ian Jones, Pennaeth Adran Gwasanaethau Corfforaethol** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **26 Tachwedd 2024** |

**1. Penderfyniad a Geisir**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

**3.1** Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet dros Adran Gwasanaethau Corfforaethol. Bydd yr adroddiad yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd hyd yma yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

**3.2** Hoffwn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod o Dîm Rheoli'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol ar yr 16eg o Fedi, 2024, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi

**3.3** Rwyf yn fodlon bod y prosiectau sy'n cael eu harwain gan yr Adran, ynghyd a pherfformiad dydd i ddydd, yn cael eu cynnal o fewn y gyllideb. Dymunaf nodi fy ngwerthfawrogiad o waith holl swyddogion yr Adran a chydnabod y cyfraniad allweddol a wneir ganddynt i gefnogi gwaith y Cyngor.

**4. Prosiectau Cynllun y Cyngor Gwynedd 2023-2028 (Meysydd Blaenoriaeth)**

Mae'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol yn arwain ar 6 prosiect o fewn gwahanol feysydd blaenoriaeth Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028. Rwy'n crynhoi'r hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma fel a ganlyn;

**4.1 Cadw'r Budd yn Lleol**

**4.1.1** Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gaffael, neu brynu, nifer o nwyddau a gwasanaethau ac yn awyddus i geisio sicrhau fod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosib yn aros yn lleol.

**4.1.2** Yn dilyn penderfyniad ar y cyd gyda holl dimau rheolaeth categori a chaffael cytunwyd i gynnal cyfarfodydd herio perfformiad ychwanegol ar gyfer adrodd ar ganlyniadau adolygu cytundebau. Cytunwyd i gynnal dau gyfarfod y flwyddyn gyda'r cyntaf wedi ei gynnal fis Mai 2024 a'r ail wedi ei drefnu ar gyfer Tachwedd 2024.

**4.1.3** Daw rheoliadau caffael newydd i rym yn ystod mis Chwefror, 2025. Mae gwaith yn cael ei wneud i adnabod os oes cyfleoedd yn y rheoliadau newydd i brynu'n lleol neu i gefnogi'r farchnad leol mewn unrhyw ffordd.

**4.1.4** Mae gwaith yn parhau ar ddatblygu cynllun cyfathrebu o ran y nod o Gadw'r Budd yn Lleol gyda gwybodaeth yn cael ei ddiweddaru ar gyfer y safle we allanol a'r fewnrwyd. Yn ogystal, mae gwaith yn mynd rhagddo i greu deunyddiau dysgu newydd ar gyfer swyddogion y Cyngor.

**4.2 Merched Mewn Arweinyddiaeth**

**4.2.1** Amcan y prosiect hwn yw hybu'r nifer o ferched sy'n ymgeisio ac yn cyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor trwy adolygu'r amodau a'r amgylchedd gwaith er mwyn denu mwy o ferched i ymgymryd â'r gwaith i'r dyfodol.

**4.2.2** Cynhaliwyd cyfres Haf o'r cyfrwng poblogaidd "Sgyrsiau dros Baned" gyda Catrin Love, Pennaeth Cynorthwyol Adran Cefnogaeth Gorfforaethol a Petra Irvine, Prif Beiriannydd, Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC yn cyfrannu a cafwyd nifer o ferched o sawl lefel wahanol o fewn y Cyngor yn mynychu. Cynhelir y gyfres nesaf yn ystod y Gaeaf, gyda siaradwyr mewnol wedi eu cadarnhau, ond cytunwyd yn y Bwrdd Prosiect diweddaraf i fod yn targedu mwy o amrediad mewn lefelau swyddi mewn siaradwyr i fod yn cynnwys Rheolwr ac Arweinyddion Tîm hefyd gyda'r bwriad o dargedu merched ifanc i gymryd y cam cyntaf.

**4.2.3** Mae pumed gyfres o'r Rhaglen Ddatblygol wedi cychwyn gyda 12 merch deilwng wedi eu dewis i fod yn rhan o'r gyfres nesaf. Cafwyd diddordeb yn y rhaglen ar draws yr Adrannau.

**4.2.4** Mae'r peilot ffurflenni cais dienw wedi ei gynnal ers Ionawr 1af eleni, a gwaith yn digwydd i gasglu adborth gan bob un o'r Rheolwyr perthnasol sydd wedi bod trwy'r broses o lunio rhestr fer yn ddienw. Cyflwynwyd y data i law ddechrau mis Medi, ac ar sail cydnabyddiaeth nad oedd yn ymddangos fod y peilot wedi cyflwyno unrhyw rwystr i'r broses benodi, cytunwyd y dylid mabwysiadu'r peilot fel y ffordd safonol o fod yn penodi i swyddi ar lefel Arweinyddion Tîm neu uwch wrth symud ymlaen gyda'r trefniant hwn i gael ei adolygu pob 6 mis tros y blynyddoedd cyntaf. Mae gwaith yn mynd rhagddo i weithredu yn ymarferol ar y penderfyniad hwn.

**4.2.5** Cynhelir sesiynau hyfforddiant 'Rhagfarn Heb Wybod' dros fisoedd y Gaeaf gan y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad

**4.2.6** Mae trefniadau ar y gweill i fynychu cyfres 'Rhwydwaith Rheolwyr' mis Tachwedd er mwyn codi ymwybyddiaeth o waith y prosiect. Ynghyd a hynny, mae bwriad i greu fideo fydd yn codi ymwybyddiaeth am waith y prosiect gyda'r bwriad o'i defnyddio mewn un o 'Sesiynau Byw gyda'r Prif Weithredwr' yn ystod y flwyddyn newydd.

**4.2.7** Mae canllawiau'r Cyngor wedi eu diweddaru gan y Gwasanaeth Adnoddau Dynol i fod yn cyfarch yr angen i geisio sicrhau hafaliad rhwng dynion a merched ar baneli cyflogaeth boed hynny yn baneli penodi / apêl cyflogaeth / medrusrwydd ayb sy'n golygu fod y garreg filltir honno wedi ei chyfarch.

**4.2.8** Mae'r data ar gynnydd ac effaith y prosiect yn cael ei ddiweddaru yn gyson, ac ar hyn o bryd, mae'r ffigwr o ferched mewn swyddi rheolaethol yn 41% sydd yn gynnydd o 11% ers sefydlu'r prosiect. Mae yna wahaniaethau rhwng Adrannau, a gwahaniaethau hefyd rhwng haenau swyddi.

**4.3 Sicrhau Tegwch i Bawb**

**4.3.1** Er mwyn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud rhaid adnabod unrhyw rwystrau sy'n wynebu rhai pobl wrth chwilio am waith, neu dderbyn, gwasanaethau gan y Cyngor. Mae'n ofyn statudol i Gyngor Gwynedd, fel corff cyhoeddus, i greu cynllun o'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud dros gyfnod o 4 blynedd i hybu cydraddoldeb. Yn sgil cyfnod o ryw 9 mis o gasglu barn mabwysiadwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 gan y Cabinet ym mis Mawrth 2024. Mae'r Cynllun yn cynnwys 5 Amcan ac mae gwaith wedi ei glustnodi dan yr Amcanion yma dros gyfnod y bedair blynedd.

**4.3.3** Mae cyfuniad o wasanaethau o blith adrannau'r Cyngor yn gyfrifol am gyflawni gwahanol agweddau'r Cynllun. Mae gwaith wedi ei wneud i ddatblygu cerrig milltir manwl ar gyfer yr holl feysydd ar gyfer 2024/25. Ar hyn o bryd mae pob un o'r cerrig milltir ar drac i'w cwblhau o fewn y flwyddyn.

**4.3.4** Mae'r problemau technegol a brofwyd ar gyflwyno trefn asesu effaith electroneg bellach wedi eu datrys. Bydd cyfnod trosiannol o lle bydd y ddwy drefn yn cyd-redeg, a bydd cyfnod o godi ymwybyddiaeth hefyd o'r teclyn.

**4.3.5** Mae hyfforddiant ar ddyletswyddau rheolwyr yn y maes cydraddoldeb yn y broses o gael ei greu, gan gynnwys cynnal asesiadau effaith cydraddoldeb. Mae gan benaethiaid yn awr fynediad at wybodaeth sydd yn rhoi darlun byw iddynt ar faint o staff sydd yn cwblhau'r hyfforddiant mandadol ar gydraddoldeb. Bu trafodaethau rhwng y swyddogion cydraddoldeb a'r Tîm Dysgu a Datblygu am gynnwys y Fframwaith Hyfforddiant Cydraddoldeb.

**4.3.6** Cynhelir cyfarfodydd misol rhwng y Tîm Gwefan ac Ymgysylltu a'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth i adnabod materion hygyrchedd newydd sy'n codi a diweddaru'r cynllun gweithredu ar gyfer gwella hygyrchedd y wefan gorfforaethol. Mae gwaith ar ail-ddylunio'r dudalen gartref ar y gweill.

**4.3.7 Cynllunio'r Gweithlu**

**4.4.1** Er mwyn sicrhau fod y Cyngor mewn sefyllfa i ddarparu a datblygu gwasanaethau i bobl Gwynedd, rhaid sicrhau fod gennym y staff cywir yn y lle iawn gyda'r sgiliau iawn.

**4.4.2** Mae gwaith wedi dechrau ym mis Medi ar gynnal yr ymarferiad 'matrics' swyddi ag adrannau'r Cyngor. Y bwriad yw creu 'matrics' o swyddi allweddol, wedi eu hasesu ar sail risg i barhad gwasanaethau allweddol y Cyngor (i gynnwys swyddi yn y meysydd gofalu ac addysg), gyda chynlluniau gweithredu wedi eu gosod ar gyfer ymateb i feysydd allweddol. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025.

**4.4.3** Mae adnoddau a threfniadau newydd wedi eu datblygu ar gyfer cynnig ac asesu profiad gwaith. Mae hyn yn cynnwys system ar-lein ar gyfer gwneud cais a chymryd adborth, pecynnau croeso i'r unigolion ac i'r rheolwyr ac e-fodiwlau i unigolion eu cwblhau cyn cychwyn eu profiad gwaith. Y bwriad fydd datblygu'r cynllun ymhellach dros y blynyddoedd i ddod.

**4.4.4** Mae'r dashfwrdd sy'n darparu gwybodaeth ar hyfforddiant mandadol wedi ei gwblhau. Mae'r gwaith o ddatblygu cynllun hyfforddi gweithlu penodol ar gyfer categori staff cyffredinol yn mynd rhagddo.

**4.4.5** Mae trafodaethau cychwynnol yn cymryd lle rhwng y Cyngor a Phrifysgol Bangor, gyda golwg ar gydweithio â'r Brifysgol ar adolygu ein dogfennau recriwtio, gan gynnwys dogfen Manylion y Person, er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy a defnyddiol i ymgeiswyr am swyddi. Rhagwelir y bydd y trafodaethau hyn yn bwydo i mewn i'r prosiect cynllunio gweithlu.

**4.4.6** Cwblhawyd cyfnod llwyddiannus o recriwtio a phenodi prentisiaid a hyfforddeion newydd ar gyfer 2024. Cafwyd dros **300** o geisiadau flwyddyn yma, bron i ddwbl y nifer o flwyddyn diwethaf. Mae **15** prentis newydd wedi eu penodi yn y meysydd gofal plant, peirianneg sifil, adnoddau dynol, para-gyfreithiol, gwyddor data, cefnogi'r gweithlu gofal ac addysg gynradd, mecanic a goleuo stryd.

**4.4.7** Mae **5** hyfforddai proffesiynol newydd wedi eu penodi yn y meysydd arwain a rheoli, newid hinsawdd, iechyd diogelwch a rheoli risg *(ar ein lonydd)*. Ni lwyddwyd i lenwi rhai swyddi, sydd yn cynnwys dwy yn y meysydd trawsnewid digidol a pheirianneg meddalwedd. Golyga hyn bod y Cyngor yn cyflogi **51** o brentisiaid a hyfforddeion proffesiynol cyfredol ar gytundebau llawn amser ar hyn o bryd.

**4.4.8** Yn ogystal â'r penodiadau uchod, mae'r Cyngor wedi penodi **4** person ychwanegol drwy'r Pŵl Talent. Cronfa o unigolion sydd wedi dangos potensial arbennig yn y canolfannau recriwtio ond heb fod yn llwyddiannus am swydd benodol yw'r Pŵl Talent. Mae **8** prentis a **2** hyfforddai proffesiynol wedi cwblhau eu cymwysterau ac wedi derbyn swyddi llawn amser gyda'r Cyngor yn ddiweddar.

**4.4.9** Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu yn ystod 2024 mewn ysgolion uwchradd ac mewn prifysgolion i sicrhau bod pobl ifanc yn ymwybodol o'r gyrfaoedd a'r cyfleoedd sydd ar gael yma. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau yn Ysgol Brynrefail, y Rhwydwaith Graddedigion ym Mhrifysgol Aberystwyth ac Ysgol y Gyfraith yn Brifysgol Bangor a Phrifysgol Lerpwl. Roedd prentisiaid a hyfforddeion proffesiynol cyfredol yn rhan o'r tîm ymgysylltu.

## 4.5 Hybu Defnydd o'r Gymraeg gan Drigolion Gwynedd

**4.5.1** Bydd prosiectau penodol yn cael eu cynnal a fydd yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ac yn cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Bydd hyn yn cynnwys cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg wrth ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol.

**4.5.2** Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda phob pennaeth neu gynrychiolydd er mwyn cael eu mewnbwn i Raglen Waith Strategaeth Iaith 2023-2033 a'r gwaith o ddatblygu'r rhaglen waith yn parhau yn dilyn eu mewnbwn. Yn sgil hynny, mae gwaith ar ambell brosiect wedi cychwyn megis diweddaru hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith newydd i gynghorwyr ac aelodau staff, a gwaith ar brosiectau eraill a oedd wedi eu sefydlu yn barod megis Prosiect Recriwtio Gweithlu Dwyieithog Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi parhau.

**4.5.3** Mae cynnydd da wedi ei wneud gyda'r prosiect 'enwau llefydd' gyda sylw wedi ei roi i bob maes gwaith a nodwyd yn y rhaglen waith wreiddiol gan gynnwys enwau'r Cyngor, tai, strydoedd / stadau tai, pentrefi/trefi a chyrchfannau/atyniadau, nodweddion daearyddol a dylanwadu ar bartneriaid allanol. Bu rhywfaint o oedi gyda gweithredu rhai elfennau o'r

rhaglen wreiddiol o ganlyniad i'r cais i ganolbwyntio ar arddel enwau Cyngor Gwynedd a rhoi sylw i newid enwau strydoedd ac oherwydd salwch a throsiant staff.

**4.5.4** Er ei fod yn swnio'n syml, canfuwyd bod y gwaith o newid enwau/arwyddion strydoedd yn dasg heriol a fyddai'n cymryd llawer iawn o adnoddau dynol ac ariannol felly penderfynwyd cynnal peilot gan osod arwyddion mewn rhai mannau a fyddai'n cynyddu gwelededd enwau Cymraeg ar raddfa fechan i gychwyn. Bu'r gweithdai ar enwau lleoedd mewn ysgolion yn llwyddiant ysgubol yn ogystal â'r map enwau lleoedd lleol Gwynedd a grëwyd er mwyn cadw enwau llafar ar gof a chadw.

**4.5.6** Mae rhaglen waith newydd wedi ei chreu ac elfennau ohoni wedi ei gweithredu. Datblygwyd ap enwau lleoedd a'r gofrestr enwau lleoedd corfforaethol er mwyn rhoi arweiniad i staff pa enwau i'w defnyddio yn ogystal â chynnal sesiwn hyfforddiant enwau lleoedd i staff. Cytunwyd i osod 6 arwydd newydd mewn mannau ar draws y sir a gosod arwyddion stryd uniaith Gymraeg newydd yn Trefor. Rydym yn disgwyl am ddyluniad yr arwyddion a'r dyddiad gosod gan Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC. Disgwylir i bob arwydd gostio rhwng £2000 a £3000. Cafwyd cyfarfod hefyd gyda Menter Iaith Gwynedd sy'n bwriadu cyflwyno cais grant i'r loteri genedlaethol ar gynyddu defnydd o enwau Cymraeg gan y cyhoedd er mwyn gweld a ellir cydweithio yn y dyfodol.

**4.5.7** O ganlyniad i ddiffyg adnoddau nid yw wedi bod yn bosib blaenoriaethu amser digonol i Prosiect 15 ac nid yw hynny'n debygol o newid yn y dyfodol. Serch hynny fe gyflwynwyd cais grant i'r loteri i barhau gyda'r prosiect ond ni fu'n llwyddiannus. Yn y cyfamser, rydym yn parhau i ryddhau rhai eitemau ar y cyfryngau cymdeithasol i gadw'r gwaith yn fyw.

**4.5.8** Yn dilyn sêl bendith gan y Cabinet i fwrw ymlaen gyda threfniadau allanoli Menter Iaith Gwynedd mae'r gwaith o gefnogi'r fenter yn parhau a threfniadau yn cael eu gwneud er mwyn trosglwyddo staff ar 1 Ebrill 2025. Braf yw nodi bod y fenter wedi penodi eu swyddog cyntaf sef swyddog datblygu iaith Meirionnydd sydd wedi cychwyn ei waith mis Awst.

**4.5.9** Penderfynodd aelodau Fforwm Iaith Gwynedd bod angen sefydlu is-grŵp i edrych ar agweddau pobl ifanc a'u rhieni tuag at y Gymraeg wrth ddilyn addysg bellach ac addysg uwch. Bellach, mae is-grŵp Pobl Ifanc Fforwm Iaith Gwynedd wedi cyfarfod dwywaith gyda 18 cynrychiolydd yn cael gwahoddiad o sefydliadau perthnasol amrywiol. Cytunwyd mai Grŵp Llandrillo Menai fydd yn arwain ar y gwaith ar y cyd â Menter Iaith Gwynedd. Trafodwyd yn y cyfarfod cyntaf mae pobl ifanc rhwng 14 a 18 mlwydd oed fyddai'r oed darged i'r is-grŵp gan fod llawer o'r gwaith perthnasol wedi'u hanelu at yr oed yma eisoes. Wrth symud ymlaen, mae'r is-grŵp yn awyddus i ymgynghori gyda phobl ifanc yn ogystal â'u rhieni i ddeall safbwyntiau ac effaith hynny ar drosglwyddiad iaith. Cytunwyd byddai aelodau'r is-grŵp yn adnabod grwpiau posib i gynnwys yn yr ymgynghoriad er mwyn cael trawstoriad teg.

**4.5.10** Mae'r arolwg cyntaf ar-lein a wneir ar y cyd gyda myfyriwr o Brifysgol Bangor sy'n edrych ar agwedd trigolion tuag at y Gymraeg a'u dewis defnydd iaith wrth ddefnyddio gwasanaethau amrywiol ar draws y sir wedi ei gwblhau. Rydym yn disgwyl am ganlyniadau cychwynnol yr ymchwil.

**4.5.11** Yn ystod mis Gorffennaf cychwynnwyd ar y gwaith o arsylwi defnydd iaith ein cwsmeriaid wrth ddefnyddio ein gwasanaethau rheng flaen mewn canolfan hamdden, llyfrgell a Siop Gwynedd yng Nghaernarfon, Dolgellau a Phwllheli yn ogystal â hunanwasanaeth ar-lein.

## 4.6 Adolygiad Strategol ar Reolaeth Iechyd a Diogelwch

**4.6.1** Mae'r prosiect yn edrych ar reolaeth strategol iechyd a diogelwch o fewn y Cyngor a'r ffordd mae hynny yn clymu i systemau llywodraethu a pherfformiad cyffredinol. Mae'n golygu cynnal adolygiad llawn o'r system reoli yn ei chyfanrwydd.

**4.6.2** Cynhelir cyfarfodydd cynnydd rheolaidd gyda'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth er monitro'r gwaith datblygu ar gyflwyno system feddalwedd newydd iechyd a diogelwch ar draws y Cyngor. Mae gwaith sylweddol yn cael ei wneud yn y cefndir er mwyn galluogi trosglwyddo'r wybodaeth hanesyddol i fformat y system newydd. Mae gwaith mapio sylweddol wedi digwydd ar ail wedd y system fydd yn gweld datblygiadau yng nghyswllt cofrestr risg, asesiadau risg, archwiliadau a swyddogaethau eraill.

**4.6.3** Mae gwaith yn parhau ar y model integredig o reoli iechyd a diogelwch. Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol gyda'r Tim Rheoli Corfforaethol ym mis Mawrth ble penderfynwyd bod angen dadansoddiad bwlch (*gap analysis*) ar y ddau fodel cyntaf. Lluniwyd holiadur yn amlinellu camau allweddol y ddau fodel fel bod rheolwyr a fformat clir a chynhwysfawr i'w ddilyn a bydd hwnnw yn cael ei rannu ym mis Hydref.


**4.6.4** Fel rhan o waith adolygu trefn cyfathrebu ac adnoddau i gynorthwyo Rheolwyr a Phenaethiaid Cynorthwyol ar draws y Cyngor, mae adolygiad o'r wybodaeth sydd ar gael ar y fewnrwyd i sicrhau bod cyfathrebu iechyd, diogelwch a lles yn glir, yn gryno, ac yn hawdd i staff ddod o hyd i wybodaeth berthnasol.

## 5. Perfformiad

**5.1.** Mae gwasanaethau’r Adran yn perfformio’n dda a chadarnhaf fy mod yn fodlon gyda’u perfformiad presennol. Gweler isod rhai o’r uchafbwyntiau.

**5.2** Dros y blynyddoedd diwethaf mae’r **Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer a Chofrestru** wedi dygymod yn arbennig o dan amgylchiadau anodd ac mae camau yn cael eu cymryd i gryfhau capasiti’r gwasanaeth.

**5.3** Mae’r **Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer a Chofrestru** yn gyfrifol am weinyddu a dod i benderfyniad ar gymhwysedd unigolyn am Fathodyn Glas. Dros y flwyddyn ddiwethaf (Medi ‘23 i Awst ‘24) ar gyfartaledd, mae'n cymryd oddeutu 1.5 diwrnod i ddod i benderfyniad ar gais unigolyn ar ôl derbyn ffurflen gyflawn, ond ar adegau, mae'n bosib iddynt ddisgwyl 8.96 diwrnod a mwy, pan fydd rhaid cyfeirio'r cais ymlaen at gwmni asesu annibynnol.





**5.4** Mae’r **Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu** yn galluogi’r Cyngor i rannu gwybodaeth a chynnal sgwrs ddwyffordd gyda phobl Gwynedd, staff ac Aelodau Etholedig y Cyngor. Mae’r gwasanaeth hefyd yn galluogi’r cyhoedd i hunan-wasanaethu ar wefan Cyngor Gwynedd 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos a chynnig ffordd fwy cost effeithiol o gysylltu â’r Cyngor am wasanaeth

**5.5** O ran y nifer o geisiadau gwasanaeth sy’n cael ei cyflwyno ar-lein mae 2,638 yn fwy o geisiadau wedi bod rhwng Ebrill ac Awst eleni na'r cyfnod cyfatebol y llynedd. Mae cynnydd wedi bod yn nifer o'r ffurflenni, e.e. Archebu Slot Canolfan Ailgylchu (4,841 cais yn fwy am y cyfnod na 2023), Adrodd am dwll yn y ffordd (78 cais yn fwy am y cyfnod na 2023). Ar yr un pryd, mae ceisiadau Methu Casgliad Gwastraff 2,714 yn is na'r cyfnod cyfatebol y llynedd, a cheisiadau Archebu Cyfarpar Gwastraff ac Ailgylchu Gorffennaf ac Awst 1,414 yn is na 2023, gan fod y Gwasanaeth wedi atal archebion newydd dros gyfnod yr haf, er mwyn dosbarthu ôl groniad o geisiadau.

**5.6** Yn y cyfnod hwn mae'r ffurflenni canlynol wedi mynd yn fyw: Cais am Docyn Parcio Tymhorol ym Morfa Bychan (133 cais ers mis Ebrill); Ffurflen Hunan-gyfeirio i'r Tîm Iechyd Meddwl (30 cais ers mis Mai); Cais am Wasanaeth Teleofal (17 cais ers diwedd Gorffennaf). Mae ffurflen Ymholiad Tai hefyd wedi'i pharatoi ar gyfer ei defnyddio gan y Siop-un-stop Tai dros y ffôn ac i gwsmeriaid hunanwasanaeth ar-lein. Ar hyn o bryd mae'r Siop-un-stop yn ei defnyddio i gofnodi galwadau ffôn yn unig, gyda'r bwriad o gynnig y ffurflen ar-lein yn y misoedd nesaf.

**5.7** Hefyd yn y cyfnod hwn, mae'r elfen mewngofnodi o Fy Nghyfrif ar wefan y Cyngor wedi ei ail ddatblygu, gan ddefnyddio technoleg mwy diweddar. Gwnaed hyn er mwyn ei gwneud yn haws i uno Fy Nghyfrif Cyngor Gwynedd, gyda chyfrifon hunanwasanaeth systemau allanol sy'n cael eu prynu gan Wasanaethau, fel mai un waith yn unig sydd angen mewngofnodi i gael mynediad i holl wasanaethau'r Cyngor. Bydd gwaith yn digwydd dros y misoedd nesaf i uno Fy Nghyfrif Cyngor Gwynedd gyda chyfrif hunanwasanaeth system Addysg newydd sy'n galluogi rhieni i wneud cais am fynediad i ysgol ayyb




**5.8** Mae'r **Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth** yn cynorthwyo pob aelod o staff i reoli gwybodaeth a chadw at ddeddfau gwybodaeth ac yn datblygu gallu'r Cyngor a'i bartneriaid i ddefnyddio gwybodaeth a thystiolaeth er mwyn gwneud y penderfyniadau gorau i bobl Gwynedd.

**5.9** Mae'r gwaith o ddatblygu dashfyrddau i ddadansoddi data a gwybodaeth (yn unol ag un o flaenoriaethau Cynllun Digidol y Cyngor) yn parhau. Dros y misoedd diwethaf fe ryddhawyd dashfyrddau ar gyfer digwyddiadau gwybodaeth, perfformiad Adran Gwasanaethau Corfforaethol, cwynion corfforaethol, hyfforddiant mandadol a hyfforddiant aelodau etholedig a datblygwyd ymhellach y dashfwrdd Proffil Cymdogaethau. Bydd yr agenda yma'n parhau i gael ei datblygu dros y misoedd nesaf gan fynd i'r afael hefyd â sut gellir rhannu'r cynnyrch yma yn fwy effeithiol gyda mwy o bobl.

**5.10** Fe gyfrannodd y **Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth** yn helaeth at yr adolygiad o wasanaethau gofal pobl hŷn i'r dyfodol yng Ngwynedd (Llechen Lân) gan fodelu newidiadau demograffig y dyfodol, effaith hynny ar anghenion gofal a staffio, ac amcangyfrif effaith posibl newid dulliau o weithio. Mae cyfres o Weithdai Gwybodaeth i holl reolwyr a pherchnogion systemau ar draws y Cyngor newydd ddod i ben gydag ymateb ac adborth da iawn iddynt. Cafwyd ymateb a sylwadau da, e.e. "Help mawr i ddeall fy mod yn rheolwr gwybodaeth a meddwl beth sydd yn ddisgwyliedig o'r rôl yma", "Sesiwn defnyddiol sydd yn gwneud i chi feddwl am y pwnc a'r camau sydd angen eu cymryd i wella'r sefyllfa yn ein gwaith dydd i ddydd"

**6. Sefyllfa Ariannol / Arbedion**

**6.1** Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2023/24 adroddwyd sefyllfa tanwariant o (£10k) a hynny yn bennaf oherwydd swyddi gwag a throsiant staff, ond y tanwariant yn cael ei leihau oherwydd costau uwch ar gyllideb cwnsela a ffisiotherapi ynghyd â diffyg incwm mewn rhai meysydd.

Derbyniwyd bid refeniw parhaol ar gyfer Cyllideb 2024/25 ar gyfer y gwariant uwch ar gyllideb cwnsela a ffisiotherapi.

**6.2** Cyflwynwyd rhagolygon ariannol 2024/25 i gyfarfod y Cabinet ar 15fed o Hydref 2024, ble rhagwelir sefyllfa tanwariant o (£23k) ar gyfer yr Adran. Unwaith eto, mae trosiant staff yn cyfrannu tuag at y tanwariant.

**6.3** Wrth baratoi Cyllideb 2024/25, adnabuwyd cynlluniau arbedion gwerth £242,540 i'w dynnu o'r gyllideb. O rhain, mae £148,500 eisoes wedi eu gwireddu, £52,430 (3 cynllun) ar drac i gyflawni'n amserol. Gydag un cynllun arbediad cyfwerth a £41,160, ble mae risg i wireddu'r arbediad. Mae'r flaenoriaeth gan yr Adran i gynnal adolygiad er mwyn adnabod beth yw'r swm y gellir torri heb greu risg annerbyniol i'r Cyngor.

## 7. Sylwadau Swyddogion Statudol

### 7.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol.

### 7.2 Swyddog Monitro

Dim sylwadau i'w hychwanegu  o safbwynt priodoldeb